

**2014 Rhif** (Cy. )

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant  
Lodge), Ynys Môn i Gyffordd 9  
(Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd)  
(Gwahardd Cerddwyr) 2014**

*Gwnaed* 4 Tachwedd 2014

*Yn dod i rym* 6 Tachwedd 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer – Bangor a Cefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(3) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Tachwedd 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge), Ynys Môn i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd) (Gwahardd Cerddwyr) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge) ar Ynys Môn a Chyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## **Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl yr heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

## **Esemptiadau**

**4.** Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gerddwr gerdded ar y darnau o'r gefnffordd pan fo:

(a) angen gwneud hynny i osgoi neu atal damwain neu i gael neu i roi help o ganlyniad i ddamwain neu argyfwng a'r cerddwr yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o berygl neu anghyfleustra a phosibl i draffig arall ar y gefnffordd;

(b) y cerddwr yn gwneud hynny wrth arfer ei ddyletswydd fel cwnstabl yr heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil neu fel aelod o'r gwasanaethau brys;

(c) angen gwneud hynny er mwyn adfer neu symud gwrthrych sydd wedi cwmpo ar y gefnffordd;

(d) angen gwneud hynny i gyflawni'r canlynol mewn modd effeithlon:

(i) cynnal a chadw, atgyweirio, glanhau, clirio, newid neu wella unrhyw ran o'r gefnffordd;

(ii) symud unrhyw gerbyd o unrhyw ran o'r gefnffordd; neu

(iii) codi, gosod, cynnal a chadw, profi, newid, atgyweirio neu dynnu unrhyw strwythur, gwaith neu offer yn, ar, o dan, dros, neu'n ffinio ag unrhyw ran o'r gefnffordd;

(e) pan fo angen gwneud hynny mewn cysylltiad ag unrhyw archwiliad, arolwg, ymchwiliad neu gyfrifiad sy'n ymwneud â'r gefnffordd neu unrhyw ran ohoni ac a wneir yn unol ag unrhyw awdurdod cyffredinol neu arbennig a roddir gan Weinidogion Cymru.

## **Dirymiadau**

**5.** Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd (yr A5) (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Gwahardd Cerddwyr) 1983(2) a Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerddwyr) 1983(3).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Tachwedd 2014

## **RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adran 1(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1983/1771

(3) O.S. 1983/1932

## **YR ATODLEN**

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge) hyd at bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Pont Britannia).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Pont Britannia).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 8 (CYFNEWIDFA PANT LODGE),  
YNYS MÔN I GYFFORDD 9 (CYFNEWIDFA  
TREBORTH), GWYNEDD) (GWAHARDD  
CERDDWYR) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 2 a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd cerddwyr ar ddarnau o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge), Ynys Môn a Chyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd, fel a nodir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Tachwedd 2014.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 4 Tachwedd 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1148748.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofyniadau perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 4 Tachwedd 2014, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge) hyd at bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Pant Lodge).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Pont Britannia).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Pont Britannia).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).